



Health and Care
Research Wales
Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatwio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis)

Rhagfyr 2023



Cynhaliwyd yr adolygiad gan Cardiff Evidence Synthesis Collaborative

Cyfranwyr yr Adroddiad

Tîm Adolygu

Meg Kiseleva, Judit Csontos, Deborah Edwards, Elizabeth Gillen, Mala Mann, Lydia Searchfield, Abubakar Sha'aban

Rhanddeiliad

Dr Sarah Jones, Cyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd y Cyhoed, Llywodraeth Cymru

Cyngor Methodolegol

Ruth Lewis

Tîm y Ganolfan Dystiolaeth

Roedd Adrian Edwards, Ruth Lewis, Alison Cooper a Micaela Gal yn ymwneud ag ymgysylltu â rhanddeiliaid, adolygu'r adroddiad a golygu

Partneriaid Cyhoeddus

Nathan Davies a Sally Anstey

Adolygiad wedi'i gyflwyno i'r Ganolfan Dystiolaeth: Mai 2023

Cyfarfod ymgynghori â Rhanddeiliad: Mehefin 2023

Adroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi gan y Ganolfan Dystiolaeth: Rhagfyr 2023

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel: Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatŵio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis). (RR0018). Rhagfyr 2023

Ymwadiad: Safbwyntiau'r awduron yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cyhoeddiad hwn, nid o reidrwydd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw wrthdrawiad buddiannau.

Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatŵio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis).

Rhif adroddiad RR0018 (Rhagfyr, 2023)

CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig (SR), gan dalfyrro neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan gadw sylw at ragfarn ar yr un pryd.

Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn?

Cynhaliwyd yr Adolygiad Cyflym hwn ar gais gan Gyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r broses o weithredu Rhan 4: Triniaethau Arbennig Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, sy'n creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer cynnal triniaethau arbennig, megis tatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol), tyllu corff, aciwbigo ac electrolysis. Mae'r adolygiad hwn yn diweddarar y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y rheoliadau er mwyn llywio sut y bydd y cynllun yn gweithio'n ymarferol.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae'r triniaethau arbennig uchod yn cynnwys tyllu'r croen ac yn cario risg posibl o haint a chymhlethodau eraill. Mae'r adolygiad presennol yn darparu sylfaen dystiolaeth gyfoes ar y prif risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â'r triniaethau arbennig hyn. Nododd chwiliadau rhagarweiniol nifer fawr o adolygiadau systematig presennol yn y maes hwn. Defnyddiodd yr adolygiad presennol felly, lle bo hynny'n bosibl, adolygiadau systematig presennol neu drosolygiadau/mapiau o adolygiadau presennol. Lle nad oedd adolygiad presennol, cynhaliwyd adolygiad o ymchwil newydd (astudiaethau cynradd).

Canlyniadau

Maint y sylfaen dystiolaeth

- Ar gyfer **tatŵio**, nodwyd un adolygiad systematig o ansawdd cymedrol gan gynnwys 55 o astudiaethau (adroddiadau achosion a chyfresi achosion yn bennaf). Ni adroddwyd am y gwledydd lle cynhaliwyd y triniaethau.
- Ar gyfer **colur lled-barhaol**, nodwyd 37 o achosion a gyflwynwyd mewn 31 adroddiad achos o ystod o wledydd, gan gynnwys y DU.
- Ar gyfer **tyllu corff**, nodwyd pedwar adolygiad systematig, a oedd yn cwmpasu 174 o astudiaethau (adroddiadau achos/cyfres ac astudiaethau trawstoriadol yn bennaf) o ystod o wledydd, gan gynnwys y DU. Roedd ansawdd yr adolygiadau hyn yn isel (n = 1), yn gymedrol (n = 2) ac yn uchel (n = 1).
- Ar gyfer **aciwbigo**, cafodd un map tystiolaeth o ansawdd uchel ei gynnwys o 535 adolygiad systematig heb derfynau oedran ac un trosolwg o ansawdd uchel o 24 adolygiad systematig sy'n canolbwyntio ar blant. Ni adroddwyd am y gwledydd lle cynhaliwyd y triniaethau.
- Ar gyfer **electrolysis**, nodwyd un adroddiad achos o Ganada.

Adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth

Cynhaliwyd chwiliadau ar gyfer ymchwil a gyhoeddwyd rhwng Ionawr 2015 a Awst 2023 ar gyfer tatŵio, tyllu'r corff, aciwbigo, ac electrolysis ac hyd at fis Medi 2023 ar gyfer colur lled-barhaol.

- Ar gyfer **tatwïo**: adolygiad systematig 2021 sy'n cwmpasu tystiolaeth sylfaenol a gyhoeddwyd o 1991 i 2020.
- Ar gyfer **colur lled-barhaol**: adroddiadau achos o 2015 i 2023.
- Ar gyfer **tyllu corff**: adolygiadau systematig a gyhoeddwyd rhwng 2016 a 2022, a oedd yn cynnwys tystiolaeth sylfaenol o 1973 i 2020.
- Ar gyfer **aciwbigo**: map tystiolaeth a throsolwg o adolygiadau systematig a gyhoeddwyd yn 2023 a 2015 yn y drefn honno, a oedd yn cynnwys adolygiadau systematig o 1999 i 2022.
- Ar gyfer electrolysis: adroddiad achos o 2015.

Cymhlethdodau a digwyddiadau niweidiol

- Ar gyfer **tatwïo**, mae'r rhain yn cynnwys heintiau bacteriol, heintiau firysol, heintiau a gludir gan y gwaed, adweithiau alergaidd, tyfiannau malaen, tyfiannau diniwed, adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis, ac ystod o adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â'r croen.> Roedd heintiau bacteriol a firysol a adroddwyd mewn astudiaethau a gyhoeddwyd ers 2015 yn cynnwys heintiau croen Mycobacteriol nad ydynt yn dwbercylaidd, syndrom croen wedi'i sgaldio Staphylococaid, a dafadennau.
- Ar gyfer **colur lled-barhaol**, mae'r rhain yn cynnwys heintiau bacterol, heintiau firysol, adweithiau alergaidd, adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis ac ystod o adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â chroen a llygaid.
> Roedd heintiau bacterol a firysol a adroddwyd mewn astudiaethau a gyhoeddwyd ers 2015 yn cynnwys ffasgiitis madru, llid yr isgroen creuol, llid yr isgroen o amgylch y llygad, brech mwnci, a *Molluscum contagiosum*.
- Ar gyfer **tyllu corff**, mae'r rhain yn cynnwys heintiau ffwngaid, firysol a bacterol, adweithiau alergaidd, tyfiannau malaen, tyfiannau diniwed, adweithiau sy'n gysylltiedig â sarcoidosis, ac adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â chroen a materion deintyddol.
> Roedd heintiau bacterol a ffwngaid a adroddwyd mewn astudiaethau ers 2015 yn cynnwys llid yr isgroen retroareolaidd, heintiau amhenodol, a *Candida dublinensis*.
- Ar gyfer **aciwbigo**, mae'r rhain yn cynnwys heintiau, adweithiau alergedd croen, ac adweithiau niweidiol eraill sy'n gysylltiedig â chroen.
> Adroddodd astudiaethau a gyhoeddwyd ers 2015 am heintiau amhenodol.
- Ar gyfer **electrolysis**, adroddwyd am sarcoidosis croenol.

Goblygiadau Ymchwil a Bylchau Tystiolaeth

- Daeth y rhan fwyaf o'r dystiolaeth sylfaenol ar gyfer y risgiau corfforol sy'n gysylltiedig â'r triniaethau arbennig o adroddiadau achosion a chyfresi achosion, nad ydynt yn caniatáu casgliadau achosol nac yn darparu gwybodaeth am nifer yr achosion o ddigwyddiadau niweidiol. Dylai ymchwil sylfaenol yn y dyfodol ddefnyddio dyluniadau mwy cadarn i gasglu tystiolaeth am y cysylltiadau achosol rhwng triniaethau arbennig a digwyddiadau iechyd corfforol niweidiol yn ogystal ag am nifer yr achosion o ddigwyddiadau o'r fath mewn pobl sy'n derbyn triniaethau arbennig.
- Mae angen mwy o dystiolaeth i nodi risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig ag electrolysis.

Goblygiadau Polisi ac Ymarfer

- Bydd y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad hwn yn cael ei defnyddio i lywio hyfforddiant swyddogion gorfodi awdurdodau lleol ac ymarferwyr triniaethau arbennig ac i addysgu aelodau o'r cyhoedd sy'n ceisio defnyddio'r gwasanaethau hyn.
- Oherwydd natur y triniaethau arbennig sy'n cynnwys tyllu'r croen ac sy'n peri risg o gyflwyno heintiau i'r corff, gall safonau uchel o hylendid leihau cyfradd yr haint.

[Darllenwch yr adroddiad llawn](#)



Health and Care
Research Wales
Evidence Centre

Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru